CYNNWYS


| | Tudalen |
|---|---|
| Rhagair a Chyflwyniad | |
| 1. Proses Pennu'r Gyllideb | 1-4 |
| 2. Cyllideb 2014-15 – Trosolwg | 5-8 |
| 3. Lefelau'r Dreth Gyngor | 9-11 |
| 4. Crynodeb o'r Gyllideb | |
| a. Cyllideb Refeniw (Net) | 12 |
| b. Crynodeb o'r Rhaglen Cyfalaf | 13-14 |
| | |
| 5. Cyllidebau'r Cyfarwyddiaethau – Refeniw a Chyfalaf | |
| a. Addysg a Thrawsnewidiad (Plant yn flaeno-rol) | 15-22 |
| b. Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Lles yn flaenorol) | 23-30 |
| c. Cymunedau | 31-40 |
| ch. Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoleiddio | 41-43 |
| d. Adnoddau a Swyddogaethau Corfforaethol | |
| - Cyllid a TGCh, Adnoddau Dynol a Datblygu Sefydliadol, Gwasanaethau i Gwsmeriaid ac Eiddo (Amgylcheddau Adeiledig ac Ystadau Eiddo)<br>- Uned y Prif Swyddog Gweithredol | 44-50 |
| 6. Geirfa | 51-54 |

## RHAGAIR

Croeso i lyfr cyllideb Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr sy'n cyflwyno Rhaglen Gyllideb Refeniw a Chyfalaf 2015-16. Fe'i cyhoeddir at ddefnydd y cyfarwyddiaethau, yr aelodau etholedig ac aelodau'r cyhoedd.

Mae cynghorau ledled y DU yn wynebu heriau digynsail, gyda llai o gyllid gan y Llywodraeth a mwy o alw am wasanaethau hanfodol. Yma yng Nghymru, mae Llywodraeth Cymru wedi cynghori'r awdurdodau lleol i ddisgwyl gostyngiadau yn eu cyllid a fydd yn effeithio ar y ffordd y caiff gwasanaethau eu cyflwyno yn y dyfodol. Erbyn 2014-15, mae'r Cyngor wedi gorfod arbed mwy na £27 miliwn oherwydd gostyngiadau yn y cyllid gan y llywodraeth genedlaethol a gostyngiad yn yr incwm a gawn o ffioedd, taliadau a buddsoddiadau. Mae'n debyg y bydd y sefyllfa ariannol anodd hon yn parhau am nifer o flynyddoedd ac yn Strategaeth Ariannol y Tymor Canolig, rydym yn amcangyfrif y bydd angen inni wneud arbedion ychwanegol o hyd at £48.8 miliwn rhwng 2015-16 a 2018-19. Mae toriadau o'r fath i'r gyllideb yn her sylweddol i'r Cyngor a bydd gofyn inni wneud llawer o benderfyniadau anodd ynglŷn â pha wasanaethau y gellir eu cynnal a pha rai na ellir eu cynnal. Yn amlwg, rydym ni'n awyddus i sicrhau bod y toriadau'n cael yr effaith leiaf bosibl ar y gwasanaeth a ddarperir i'n dinasyddion. Rydym ni'n ymrwymo felly i ddod o hyd i fwy na hanner ein harbedion yn fewnol yn y Cyngor, a hynny drwy fanteisio i'r eithaf ar yr adnoddau a fydd ar gael inni. Bydd yn rhaid i'r hanner arall ddod o newidiadau i'n polisiau a'r ffordd y caiff rhai gwasanaethau eu darparu, yn ogystal â gostwng neu roi'r gorau i ddarparu rhai o'r gwasanaethau a ddarperir ar hyn o bryd. Gan fod cyfran uchel o gyllideb y cyngor (69%) yn gysylltiedig â chostau cyflogi staff, mae'n anochel y bydd unrhyw ostyngiad yng nghyllidebau meysydd gwasanaeth yn arwain at ostyngiad sylweddol yng ngweithlu'r cyngor.

Cynhaliodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr ymgynghoriad ar y gyllideb yn ddiweddar er mwyn cael sylwadau trigolion a rhanddeiliaid ar y cynigion uchod, ac mae'r sylwadau hynny'n cael eu hystyried yn briodol. Rydym ni'n ymrwymo i weithio'n agos â'r gymuned i leihau effaith y toriadau yn y gyllideb.

Cost net y gwasanaethau a ddarperir gan y Cyngor yn 2015-16 yw £252.201 miliwn, sy'n ostyngiad o £2.930 miliwn o'i gymharu â 2014-15. Mae Llywodraeth Cymru wedi gostwng –3.4% ar y cyllid y mae'n ei ddyrannu i Ben-y-bont ar Ogwr. Fodd bynnag, -3.6% yw'r gostyngiad gwirioneddol oherwydd y ffordd y mae Llywodraeth Cymru wedi trin y cyllid ychwanegol ar gyfer gofal cymdeithasol.

Mae'r gyllideb yn neilltuo £3.3 miliwn i ymateb i'r pwysau ar y gyllideb na ellir ei osgoi, gan gynnwys taliadau uniongyrchol, mabwysiadu, rheoli gwastraff a chostau sy'n codi o ganlyniad i newidiadau yn y rheoliadau cyllido cyfalaf. Mae £3.6 miliwn wedi ei neilltuo ar gyfer chwyddiant prisiau penodol, newidiadau i ddeddfwriaeth pensiwn a chyfraniadau pensiwn cyflogwyr dros gyfnod Strategaeth Ariannol y Tymor Canolig. Er mwyn cael cyllideb gytbwys, mae cyllideb y Cyngor yn cynnwys cynigion i arbed £11.2 miliwn. Un o egwyddorion allweddol y cyngor wrth ddatblygu Strategaeth Ariannol y Tymor Canolig yw bodloni ei oblygiadau statudol a chyfeirio ei adnoddau tuag at ei flaenoriaethau gwella corfforaethol. Mae Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau eto ei hymroddiad i barhau i ddiogelu cyllidebau ysgolion yn 2015-16 ac mae hyn wedi golygu y bydd cyllidebau gwasanaethau eraill yn ysgwyddo cyfran uwch o'r arbedion.

## CYFLWYNIAD

# Cyllideb 2015-16 a Strategaeth Ariannol y Tymor Canolig 2016-17 i 2018-19

Cymeradwywyd y Gyllideb a'r Dreth Gyngor ar gyfer 2015-16 gan y Cyngor ar 25 Chwefror 2015. Mae Strategaeth Ariannol y Tymor Canolig yn cynnwys cyllidebau dangosol ar gyfer y cyfnod o 2016-17 i 2018-19.

Mae'r llyfr cyllideb hwn yn rhoi trosolwg o Gyllideb Refeniw y Cyngor ar gyfer 2015-16 a chynigion amlinellol ar gyfer 2016-17 a 2018-19. Mae hefyd yn cynnwys y Rhaglen Gyfalaf ar gyfer y cyfnod o 2015-16 i 2024-25 a chyllidebau refeniw a chyfalaf manwl y Cyfarwyddiaethau ar gyfer 2015-16.

## Gair am Ben-y-bont ar Ogwr



Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yw un o'r 22 awdurdod lleol unedol a grëwyd ym mis Ebrill 1996 yn dilyn ad-drefnu llywodraeth leol yng Nghymru, ac mae'n darparu'r holl brif wasanaethau llywodraeth leol ar gyfer trigolion yr ardal. Mae'r fwrdeistref sirol yng nghalon ddaearyddol de Cymru, gydag arfordir ar Fôr Hafren a chymysgedd o gymunedau gwledig a threfol. Yn ôl y cyfrifiad swyddogol diwethaf, mae poblogaeth y fwrdeistref yn rhyw 139,178, sef cynnydd o 8.2% ers y cyfrifiad blaenorol yn 2001.
Mae'r arwynebedd tir o 28,500 hectar yn ymestyn 20 cilomedr o'r dwyrain i'r gorllewin ac yn cynnwys cymoedd Llynfi, Garw ac Ogwr. Y trefi mwyaf yw Pen-y-bont ar Ogwr, Maesteg a thref glan y môr Porthcawl.

## Cyllideb 2015-16 – Trosolwg

Mae'r Cyngor wedi cymeradwyo cyllideb net derfynol o £252.201 miliwn ar gyfer 2015-16, a chynnydd cyffredinol cyfartalog ym Mand D y dreth gyngor o 4.8%. Cafodd adroddiadau ar gynigion y gyllideb refeniw ddrafft yn amlinellu'r wasgfa ar y gyllideb na ellir ei hosgoi, a'r cynigion ar gyfer sicrhau arbedion yn y gyllideb a'r effaith ar Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, eu cyflwyno i'r Cabinet ar 9 Rhagfyr 2014, a chymeradwywyd y gyllideb derfynol gan y Cyngor ar 25 Chwefror 2015.

Cyhoeddwyd y Setliad Llywodraeth Leol Terfynol ar gyfer 2015-16 ar 10 Rhagfyr 2014. Y gostyngiad yng nghyllid Pen-y-bont ar Ogwr gan Lywodraeth Cymru (ar ôl ystyried trosglwyddiadau i'r setliad) yw -3.4%. Fodd bynnag, nid yw'n cydnabod y cyllid ychwanegol o £10 miliwn ar gyfer gofal cymdeithasol yn y setliad. Pan ystyrir hyn, y gostyngiad cyfartalog ar draws Gymru yw -3.6% a -3.6% i Ben-y-bont ar Ogwr. Mae hwn yn ostyngiad o £134,000 ar y Setliad Dros Dro oherwydd mân newidiadau i'r setiau data a diweddaru sylfaen y dreth gyngor ar gyfer 2015-16.

Nid yw'r Gweinidog wedi rhoi unrhyw arwydd o'r ffigyrau ar gyfer 2016-17 ymlaen, ond yng ngoleuni rhagamcaniadau economaidd a chyllidol presennol a diffyg gwybodaeth arall, mae'r senario mwyaf tebygol yn Strategaeth Ariannol y Tymor Canolig wedi'i seilio ar dybiaeth y bydd y Cyllid Allanol Cyfun yn gostwng 4.5% ar gyfer 2016-17, 2017-18 a 2018-19. Yn seiliedig ar y tybiaethau hyn, cyfanswm y gostyngiadau cylchol y mae eu hangen o 2016-17 i 2018-19 yw £37.6 miliwn. Mae'r gwaith o ddatblygu'r Rhaglen Gyfalaf wedi dilyn egwyddorion Strategaeth Ariannol y Tymor Canolig ac yn adlewyrchu setliad cyfalaf Llywodraeth Cymru ar gyfer 2015-16. Nid oes unrhyw ddyraniadau dangosiadol wedi'u dangos ar gyfer 2016-17, ac felly am y tro, tybir y bydd y lefel gyllido yn aros yn gyson yn ystod y blynyddoedd ar ôl 2015-16. Mae'r tabl isod yn dangos rhai o'r meysydd blaenoriaeth y mae'r cyngor wedi dyrannu cyllid refeniw ychwanegol iddynt er mwyn bod-loni pwysau cyllidebol.

| Cyswllt â'r Flaenoriaeth Gwella Corfforaethol | Adnoddau a Neilltuwyd |
|---|---|
| Helpu pobl sy'n agored i niwed a phobl hŷn i barhau i fod yn annibynnol | • £800,000 i gefnogi'r adolygiad presennol o drefniadau noson gysgu presennol, a allai arwain at bwysau o ran cost.<br>• £400,000 i ateb y duedd gynyddol 'daliadau uniongyrchol i ddefnyddwyr gwasanaethau y mae'n well ganddynt wneud eu dewis eu hunain a phrynu eu trefniant gofal eu hunain'.<br>• £120,000 tuag at gostau cleientiaid sydd wedi gorfod symud i ddarpariaeth arall ddrutach ar ôl i ddarparwr preswyl preifat dynnu'n ôl.<br>• £70,000 tuag at yr angen cynyddol am leoliadau preswyl arbenigol a lleoliadau preswyl nad ydynt yn rai arbenigol, o ganlyniad i gynnydd yn yr achosion o broblemau iechyd meddwl. |
| Cefnogi plant a theuluoedd trwy eu helpu i ymdrin â'u problemau mor gynnar ag sy'n bosibl | • £112,000 o gyllid untro tuag at y gwasanaethau Diogelu er mwyn sicrhau parhad darpari-aeth gwasanaeth cyn y cynhelir yr adolygiad o'r strwythur.<br>• £292,000 o gyllid untro tuag at gostau cynyddol y Gwasanaeth Mabwysiadu. Wrth i'r gwasanaeth ddatblygu, rhagwelir y bydd y costau'n gostwng. |
| Busnes Arall fel Arfer | • £622,000 i ariannu'r pwysau cyllidebol ar gyfrifon refeniw ar ôl cyhoeddi'r canllawiau CIPFA newydd ynglŷn â chael gwared ar y costau cyffredinol sydd wedi'u cynnwys yn y cyfraddau ail-godi ar gyfer costau staff mewnol.<br>• £320,000 o gyllid untro one sydd ei angen i dalu costau gwaredu cynyddol gwastraff gweddilliol (bag du), sydd wedi cynyddu'n unol â dangosyddion economaidd eraill sy'n gysylltiedig â gwastraff. |

Mae'r tabl canlynol yn rhoi crynodeb o ddyraniad y gwariant net cyffredinol sydd wedi ei gyllidebu sef £252.201 milian ar gyfer 2015-16:

| | Cyllideb 2014-15 Wedi'i Diwygio £'000 | Trosglwyddi-adau Grant Penodol gan LIC £'000 | Diogelu Ysgolion £'000 | Newidiadau Pensiwn £'000 | Tâl/Prisiau / Demograffeg (1) £'000 | Pwysau ar y Gyllideb na ellir ei osgoi £'000 | Cynigion i Leihau'r Gyl-lideb £'000 | 2015-16 Cyllideb £'000 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Addysg a Thrawsnewid | 22,207 | 353 | - | 69 | 341 | - | (2,281) | 20,689 |
| Ysgolion | 84,748 | - | 508 | - | - | - | (170) | 85,086 |
| Gofal Cymdeithasol i Oedolion | 40,438 | 483 | - | 78 | 1,580 | 1,398 | (2,787) | 41,190 |
| Diogelu | 18,381 | (12) | - | 20 | 157 | - | (470) | 18,076 |
| Chwaraeon, Chwarae a Lles Egnïol | 2,978 | - | - | 4 | 85 | - | (277) | 2,790 |
| Cymunedau | 26,570 | - | - | 133 | 455 | 243 | (2,488) | 24,913 |
| Adnoddau | 14,746 | - | - | 53 | 333 | 693 | (1,153) | 14,672 |
| Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoleiddiol | 6,532 | (22) | - | 14 | 83 | - | (554) | 6,053 |
| Cyfanswm Gwariant ar Wasanaethau | **216,600** | **802** | **508** | **371** | **3,034** | **2,334** | **(10,180)** | **213,469** |
| | | | | | | | | |
| Ariannu Cyfalaf | 10,515 | - | - | - | - | - | (200) | 10,315 |
| Ardollau | 7,030 | - | - | - | - | - | (102) | 6,928 |
| Atgyweiriadau a Gwaith Cynnal a Chadw | 1,150 | - | - | - | - | - | (50) | 1,100 |
| Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor | 13,825 | - | - | - | 622 | - | (193) | 14,254 |
| Costau sy'n Ymwneud â Phensiynau | 1,361 | - | - | (171) | - | - | - | 1,190 |
| Premiymau Yswiriant | 1,737 | - | - | - | - | - | (100) | 1,637 |
| Cyllidebau Corfforaethol | 2,913 | (61) | - | - | (80) | 936 | (400) | 3,308 |
| **Cyfanswm y Gyllideb Refeniw Net** | **255,131** | **741** | **508** | **200** | **3,576** | **3,270** | **(11,225)** | **252,201** |

(1) Mae chwyddiant prisiau wedi ei neilltuo i gyllidebau gwasanaethau ac mae'n cynnwys darpariaeth ar gyfer cynnydd mewn ardrethi busnes, costau bwyd, costau ynni ac ymrwymiadau eraill. Hefyd, gwnaed darpariaeth ar gyfer y cynnydd arfaethedig yng nghyfraniadau pensiwn y cyflogwr o 1 Ebrill 2015. Mae mwy o fanylion yn Adroddiad y Cyngor, dyddiedig 25 Chwefror 2015, sy'n rhoi manylion ychwanegol am y pwysau a'r cyfyngiadau i'r gyllideb sydd wedi eu cymeradwyo, a manylion y cyllidebau dangosol ar gyfer 2015-16 i 2018-19.

Mae'r tabl isod yn dangos sut y mae dyraniadau cyllideb 2015-16 yn cyfrannu at y blaenoriaethau gwella corfforaethol ac yn cefnogi gweithgareddau busnes craidd (busnes fel arfer).

| Blaenoriaethau Gwella Corfforaethol 2015-16 | | | |
|---|---|---|---|
| **Cyfarwyddiaeth** | **Blaenoriaethau Gwella Corfforaethol £000** | **Busnes Craidd £000** | **Cyfanswm £000** |
| Addysg a Thrawsnewid | 18,492 | 2,197 | 20,689 |
| Ysgolion | 84,916 | 170 | 85,086 |
| Gofal Cymdeithasol i Oedolion | 38,397 | 2,793 | 41,190 |
| Diogelu | 17,606 | 470 | 18,076 |
| Chwaraeon, Chwarae a Lles Egnïol | 2,513 | 277 | 2,790 |
| Cymunedau | 10,838 | 14,075 | 24,913 |
| Cyfreithiol a Rheoleiddiol | 3,835 | 2,218 | 6,053 |
| Adnoddau | (1,021) | 15,693 | 14,672 |
| Cyllidebau Corfforaethol | - | 38,732 | 38,732 |
| **Y Gyllideb Net Ofynnol** | **175,576** | **76,625** | **252,201** |

## Strategaeth Ariannol y Tymor Canolig o 2015-16 Ymlaen

Mae'r adran hon yn rhoi gwybodaeth am Strategaeth Ariannol y Tymor Canolig a gynigiwyd gan y Cyngor ar gyfer y pedair blynedd ariannol nesaf. Diben y Strategaeth yw nodi sut y mae'r Cyngor yn bwriadu defnyddio ei adnoddau i'w helpu i gyflawni ei flaenoriaethau corfforaethol a'i ddyletswyddau statudol, gan gynnwys rheoli pwysau a risgiau ariannol dros y pedair blynedd nesaf. Mae tybiaethau cynllunio'r Strategaeth ar gyfer 2016-17, 2017-18 a 2018-19 wedi eu seilio ar leihad o 4.5% yn y Cyllid Allanol Cyfun a chynnydd tybiedig yn y dreth gyngor o 4.5% bob blwyddyn. Fodd bynnag, mae'r holl dybiaethau hyn, yn ogystal â'r pwysau a'r risgiau a ragolygir, i gyd yn gallu newid. Mae hyn yn golygu na ellir cynllunio lefelau'r dreth gyngor ar gyfer y dyfodol â sicrwydd. I gydnabod yr ansicrwydd hwn, mae'r Strategaeth wedi ei ddatblygu gan ystyried gwahanol sefyllfaoedd posibl o ran adnoddau (y sefyllfa waethaf, y sefyllfa orau a'r sefyllfa fwyaf tebygol) ar sail ystod gymharol eang o setliadau a lefel y dreth gyngor yn y dyfodol.

Mae'r Strategaeth wedi ei seilio ar y Sefyllfa Fwyaf Tebygol, sef bwlch o £48.8 miliwn yn y gyllideb. Mae'r tabl isod yn dangos yr arbedion sy'n ofynnol i ariannu'r bwlch ar gyfer y cyfnod o 2015-16 i 2018-19, ar ôl cynnwys cynnydd tybiedig o 4.5% bob blwyddyn yn y dreth gyngor.

**++Sefyllfaoedd Posibl sy'n dangos yr Arbedion Net Gofynnol yn y Strategaeth**


| | Arbedion Gofynnol 2015-16 £'000 | Arbedion Gofynnol 2016-17 £'000 | Arbedion Gofynnol 2017-18 £'000 | Arbedion Gofynnol 2018-19 £'000 | Cyfanswm Arbedion Gofynnol £'000 |
|---|---|---|---|---|---|
| Sefyllfa Orau | 11,225 | 10,738 | 9,647 | 9,347 | 40,956 |
| **Sefyllfa Fwyaf Tebygol** | **11,225** | **13,566** | **12,263** | **11,763** | **48,817** |
| Sefyllfa Waethaf | 11,225 | 16,394 | 14,794 | 14,021 | 56,434 |

++Mae mwy o fanylion yn Adroddiad y Cyngor, dyddiedig 25 Chwefror 2015, sy'n rhoi mwy o wybodaeth ynglŷn ag ymdopi o fewn ffiniau'r Strategaeth.

## *Cyllideb Refeniw Gros 2015-16*

Ar beth y mae'r arian yn cael ei wario:

| **Meysydd Gwasanaeth** | **2015-16 £ Miliwn** |
|---|---|
| Addysg a Thrawsnewid | 35.408 |
| Ysgolion | 102.924 |
| Gofal Cymdeithasol i Oedolion | 57.033 |
| Diogelu | 19.068 |
| Chwaraeon, Chwarae a Lles Egnïol | 3.731 |
| Cymunedau | 49.355 |
| Adnoddau | 24.764 |
| Budd-daliadau i Hawlwyr | 51.071 |
| Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor | 14.254 |
| Gwasanaethau Cyfreithiol a Rhe-oleiddio | 6.790 |
| Ariannu Cyfalaf | 10.815 |
| Ardollau a Chyfraniadau | 6.928 |
| Cyllidebau eraill | 8.676 |
| **Cyllideb Refeniw Gros** | **390.817** |




## *Cyllideb Refeniw Gros 2015-16*

Mae cyllideb refeniw'r Cyngor yn cefnogi gweithrediadau'r gwasanaethau o ddydd i ddydd a chaiff ei hariannu fel a ganlyn:

O Ble y daw'r Arian:


| **Ffynhonnell** | **2015-16 £ Miliwn** |
|---|---|
| Grant Cynnal Refeniw ac Ardrethi Annomestig [gan Lywodraeth Cymru] | 188.409 |
| Grantiau Penodol y Llywodraeth | 86.760 |
| Grantiau eraill, Ad-daliadau a Chyfraniadau | 20.446 |
| Y Dreth Gyngor | 63.792 |
| Ffioedd, Taliadau ac Incwm arall | 31.410 |
| **Cyllideb Refeniw Gros** | **390.817** |



## *Rhaglen Gyfalaf 2015-16*

Mae’r buddsoddiad sydd wedi ei gynllunio dros yr ychydig flynyddoedd nesaf yn canolbwyntio ar raglen Ysgolion yr 21ain Ganrif, seilwaith priffyrdd ac adfywio canol ein trefi. Mae’r tabl nesaf yn dangos y gwasanaethau a fydd yn elwa ar wariant cyfalaf yn 2015-16:

| **Gwasanaethau** | **2015-16 £ Miliwn** |
|---|---|
| Addysg a Thrawsnewid | 11.204 |
| Gofal Cymdeithasol i Oedolion | 0.784 |
| Chwaraeon, Chwarae a Lles Egnïol | 0.200 |
| Cymunedau – Gwasanaethau Stryd | 3.214 |
| Cymunedau – Adfywio a Datblygu | 16.122 |
| Adnoddau | 4.917 |
| **CYFANSWM** | **36.441** |




## *Rhaglen Gyfalaf 2015-16*

Yn ogystal â'r arian a gaiff ei wario ar gostau cynnal gwasanaethau o ddydd i ddydd, mae'r Cyngor yn buddsoddi symiau sylweddol yn ei raglan gyfalaf i sicrhau y bydd ei adeiladau a'i seilwaith yn gallu cefnogi'r gwaith o ddarparu'r gwasanaethau. Mae'r tabl canlynol yn dangos ffynonellau'r cyllid cyfalaf:

Ffynhonnell Cyllid y Rhaglen Gyfalaf:

| **Meysydd Gwasanaeth** | **2015-16 £Miliwn** |
|---|---|
| Benthyca â Chymorth Heb ei Neilltuo | 3.909 |
| Grant Cyfalaf Cyffredinol | 2.379 |
| Grantiau a chyfraniadau allanol | 10.196 |
| Benthyca Digymorth | 2.297 |
| Benthyciad - Llywodraeth Cymru | 2.400 |
| Menter Benthyca Llywodraeth Leol [Ysgolion yr 21ain Ganrif] | 2.883 |
| Derbyniadau Cyfalaf | 9.322 |
| Cyfraniadau Refeniw | 3.055 |
| **CYFANSWM** | **36.441** |



## Y Dreth Gyngor

Mae bil y dreth gyngor ar gyfer blwyddyn ariannol 2015-16 (1 Ebrill 2015 i 31 Mawrth 2016) yn cynnwys taliadau i Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, Comisiynydd Heddlu a Throseddu De Cymru a'r Cynghorau Cymuned. Mae'r Cyngor yn casglu'r dreth gyngor ar ran y ddau gorff arall. Caiff yr arian a gesglir ei dalu i'r cyrff perthnasol yn unol â'r swm y maent wedi ei gynnwys yn eu cyllideb i'w godi ar aelwydydd ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr. Yn 2015-16 mae'r dreth gyngor yn darparu £10.207 miliwn i Gomisiynydd Heddlu a Throseddu De Cymru, £1.737 miliwn i Gynghorau Cymuned a £63.792 miliwn i Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.

Cyfrifir lefel gyfartalog Treth Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr fel y dangosir isod:

| Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr | 2014-15<br>£ | 2015-16<br>£ |
|---|---|---|
| Sylfaen y Dreth Gyngor Net (Cyfwerth â Band D) | 50,566.20 | 51,071.48 |
| **Cyfanswm Gwariant Net** | **255,131,000** | **252,201,218** |
| Gan dynnu: | | |
| Grant Cynnal Refeniw | 150,943,439 | 148,001,598 |
| Dosbarthiad Ardreth Annomestig Genedlaethol | 43,919,218 | 40,407,767 |
| **Swm a gesglir o'r Dreth Gyngor** | **60,268,343** | **63,791,853** |

## Treth Gyngor Band D Gyfartalog

Caiff y swm a godir ar gyfer aelwyd Band D ei gyfrifo yn ôl y swm sydd i'w godi gan dreth gyngor Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, drwy rannu'r gwariant net na delir gan y Grant Cynnal Refeniw a Dosbarthiad yr Ardreth Annomestig Genedlaethol gan sylfaen y dreth gyngor. Sylfaen treth gyngor Pen-y-bont ar Ogwr ar gyfer 2015-16 yw 51,071.48, sy'n rhoi golygu bod treth gyngor band D yn £1,249.07, fel y nodir yn y tabl isod:

Treth Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr

$$= \frac{\text{Swm a Gasglwyd o'r Dreth Gyngor}}{\text{Sylfaen y Dreth Gyngor}}$$

$$= \frac{63{,}791{,}853}{51{,}071.48}$$

**= £1,249.07 (Band D)**

Mae'r tabl nesaf yn dangos manylion y cyfanswm sydd i'w godi o'r dreth gyngor ar gyfer eiddo Band D:

| Cyfansoddion Cyfanswm y Dreth Gyngor ar gyfer Eiddo Band D ym Mhen-y-bont ar Ogwr | 2014-15 | 2015-16 | Cynnydd £ | Cynydd % |
|---|---|---|---|---|
| **Treth Gyngor gofynnol** | **£60.268m** | **£63.792m** | | |
| **Sylfaen dreth (nifer yr eiddo y cesglir treth ganddynt)** | **50,566** | **51,071** | | |
| **Treth Gyngor y Fwrdeistref Sirol** | **£1,191.87** | **£1,249.07** | **£57.20** | **1.8%** |
| **Cyfartaledd y Cynghorau Cymuned** | **£31.12** | **£34.01** | **£2.89** | **9.3%** |
| **Comisiynydd Heddlu a Throseddu De Cymru** | **£190.34** | **£199.86** | **£9.52** | **5%** |
| **Treth Gyngor Band D Gyfartalog wedi'i chyfuno** | **£1,413.33** | **£1,482.94** | **£69.61** | **4.93%** |


## *Treth Gyngor Band D*

Caiff y swm a godir fesul eiddo Band D ei drosi'n swm sy'n seiliedig ar prisiau eiddo hanesyddol ar 1 Ebrill 2003. Yr enw ar hwn yw'r 'dyddiad prisio'. Mae'r dyddiad a bennir yn sicrhau bod yr holl eiddo yn cael eu hasesu ar adeg benodol, sy'n sicrhau system decach i bawb. Pennir eiddo i fandiau gan Asiantaeth y Swyddfa Brisio, asiantaeth annibynnol nad yw'n rhan o'r Cyngor. Ers 2005, mae'r dreth gyngor wedi ei chyfrifo gan ddefnyddio naw band prisio (bandiau A i I) a sefydlwyd yn 2005 gan ddefnyddio prisiau tai 2003. Os na adeiladwyd neu drawsnewidiwyd eiddo tan ar ôl 1 Ebrill 2003, caiff y band ei seilio ar bris yr eiddo pe byddai wedi ei adeiladu yn 2003. Mae pob band yn cynnwys ystod o brisiau eiddo. Mae swm y Dreth Gyngor a delir yn dibynnu ar fand Prisio'r eiddo yr ydych yn byw ynddo a'r gymuned lle mae'r eiddo wedi ei leoli.

Ar gyfer eiddo Band A, sef ychydig dros 16% o'r eiddo yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, cyfradd y cyngor o'r Dreth Gyngor yw £832.71. Ceir swm hefyd ar gyfer y Cyngor Cymuned, gan dibynnu ar leoliad yr aelwyd, a cheir tâl a gesglir ar ran Comisiynydd Heddlu a Throseddu De Cymru.

**Mae 63% o'r eiddo ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn talu llai na'r 'Band D cyfatebol' sef y band a ddefnyddir yn gyffredin i gymharu lefelau'r Dreth Gyngor rhwng Awdurdodau.**

| Band | Pris ar 1.4.2005 | Cymhareb | Nifer yr Aelwydydd | % yr aelwydydd yn y band | Treth Gyngor y Cyngor 2015-16 £ |
|---|---|---|---|---|---|
| A | Hyd at £44,000 | 6/9 | 10,343 | 16.59% | 832.71 |
| B | £44,001 i £65,000 | 7/9 | 15,058 | 24.15% | 971.50 |
| C | £65,001 i £91,000 | 8/9 | 14,068 | 22.56% | 1,110.28 |
| D | £91,001 i £123,00 | 9/9 | 9,871 | 15.83% | 1249.07 |
| E | £123,001 i £162,000 | 11/9 | 7,166 | 11.49% | 1,526.64 |
| F | £162,001 i £223,000 | 13/9 | 4,060 | 6.51% | 1,804.21 |
| G | £223,001 i £324,000 | 15/9 | 1,405 | 2.25% | 2,081.78 |
| H | £324,001 i £424,000 | 18/9 | 279 | 0.45% | 2,498.14 |
| I | £424,001 a mwy | 21/9 | 103 | 0.17% | 2,914.50 |



## Taliadau Treth Gyngor Band D Fesul Ardal Cyngor Cymuned 2015-16

Roedd y tabl blaenorol yn dangos y cyfrifon treth gyngor band D gyfartalog ar gyfer ardal Pen-y-bont ar Ogwr. Mae praeseptau Cyngor Cymuned yn amrywio drwy'r Sir gan achosi amrywiaethau yn y cyfanswm sy'n daladwy fel y dangosir isod:

| Cyngor Cymuned | Band D £ | Cyngor Cymuned £ | Heddlu £ | Cyfanswm £ | Cyngor Cymuned | Band D £ | Cyngor Cymuned £ | Heddlu £ | Cyfanswm £ |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyngor Cymuned Bracla | 1,249.07 | 32.76 | 199.86 | 1,481.69 | Cyngor Cymuned Llangynwyd Ganol | 1,249.07 | 35.53 | 199.86 | 1,484.46 |
| Cyngor Tref Pen-y-bont ar Ogwr | 1,249.07 | 51.97 | 199.86 | 1,500.90 | Cyngor Tref Maesteg | 1,249.07 | 53.00 | 199.86 | 1,501.93 |
| Cyngor Cymuned Cefn Cribwr | 1,249.07 | 37.61 | 199.86 | 1,486.54 | Cyngor Cymuned Merthyr Mawr | 1,249.07 | 13.54 | 199.86 | 1,462.47 |
| Cyngor Cymuned Coety Uchaf | 1,249.07 | 18.05 | 199.86 | 1,466.98 | Cyngor Cymuned Castellnewydd Uchaf | 1,249.07 | 25.64 | 199.86 | 1,474.57 |
| Cyngor Cymuned Corneli | 1,249.07 | 34.65 | 199.86 | 1,483.58 | Cyngor Cymuned Bro Ogwr | 1,249.07 | 23.23 | 199.86 | 1,472.16 |
| Cyngor Cymuned Llangrallo Uchaf | 1,249.07 | 30.52 | 199.86 | 1,479.45 | Cyngor Tref Pencoed | 1,249.07 | 41.94 | 199.86 | 1,490.87 |
| Cyngor Cymuned Llangrallo Isaf | 1,249.07 | 19.42 | 199.86 | 1,468.35 | Cyngor Tref Porthcawl | 1,249.07 | 29.96 | 199.86 | 1,478.89 |
| Cyngor Cymuned Cwm Garw | 1,249.07 | 30.10 | 199.86 | 1,479.03 | Cyngor Cymuned y Pîl | 1,249.07 | 24.55 | 199.86 | 1,473.48 |
| Cyngor Cymuned Trelales | 1,249.07 | 25.07 | 199.86 | 1,474.00 | Cyngor Cymuned Llansanffraid-ar-Ogwr | 1,249.07 | 24.08 | 199.86 | 1,473.01 |
| Cyngor Cymuned Llangynwyd Isaf | 1,249.07 | 41.49 | 199.86 | 1,490.42 | Cyngor Cymuned Ynysawdre | 1,249.07 | 25.24 | 199.86 | 1,474.17 |


## Datganiad Cryno

Mae crynodeb o Gyllideb Refeniw Net yr Awdurdod ar gyfer 2015-16 isod:

| Cost y Gwasanaethau | 2015-16 | | |
|---|---|---|---|
| | Gwariant £'000 | Incwm £'000 | Gwariant Net wedi'i Addasu £'000 |
| Addysg a Thrawsnewid | 35,408 | (14,719) | 20,689 |
| Ysgolion | 102,924 | (17,838) | 85,086 |
| Gofal Cymdeithasol i Oedolion | 57,033 | (15,843) | 41,190 |
| Diogelu | 19,068 | (992) | 18,076 |
| Chwaraeon, Chwarae a Lles Egnïol | 3,731 | (941) | 2,790 |
| Cymunedau | 49,355 | (24,442) | 24,913 |
| Adnoddau | 24,764 | (9,877) | 14,887 |
| Budd-daliadau i Hawlwyr | 51,071 | (51,286) | (215) |
| Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoleiddio | 6,790 | (737) | 6,053 |
| **Gwariant Adrannol** | **350,144** | **(136,675)** | **213,469** |
| Tâl Cyllido Cyfalaf | 10,815 | (500) | 10,315 |
| Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor | 14,254 | - | 14,254 |
| Cyllidebau Corfforaethol eraill | 8,676 | (1,441) | 7,235 |
| Ardollau a Chyfraniadau gan gynnwys Praeseptau'r Gwasanaeth Tân | 6,928 | | 6,928 |
| **Cyfanswm Cyllideb Gwariant Net** | **390,817** | **(138,616)** | **252,201** |
| **Wedi ei ariannu gan:** | | | |
| Grant Cynnal Refeniw ac Ardrethi Annomestig [gan Lywodraeth Cymru] | | | (188,409) |
| Y Dreth Gyngor | | | (63,792) |
| **Cyfanswm yr Ariannu** | | | **252,201** |
| **BAND D CYFARTALOG Y DRETH GYNGOR - Cyngor Pen-y-bont ar Ogwr** | | | **£1,249.07** |

## Rheoli Asedau'r Awdurdod Lleol

Gwerth asedau hirdymor (ac eithrio Dyledwyr Hir Dymor) yr Awdurdod ar 31 Mawrth 2014 oedd £526.346 miliwn




| | Tir ac adeiladau eraill | Cerbydau, cyfarpar trwm, dodrefn ac offer | Asedau Seilwaith | Asedau Cymunedol | Eiddo Buddsoddi | Asedau dros ben nid i'w Gwerthu | Asedau sydd wrthi'n cael eu Hadeiladu | Asedau Treftadaeth |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| £'000 | 398,102 | 5,202 | 88,659 | 4,537 | 3,011 | 10,669 | 16,115 | 51 |

Mae rheoli asedau'n effeithiol yn rhan bwysig o ddarparu canlyniadau gwell i drigolion a gwella effeithlonrwydd. Mae gwariant cyfalaf parhaus yn angenrheidiol nid yn unig i sicrhau bod asedau sydd eisoes yn bodoli'n cael eu cynnal, er enghraifft gwario ar ffyrdd, ond hefyd i hybu ailddatblygu a gwaith adnewyddu mawr ar adeiladau.

Bydd yr asedau hyn yn darparu buddion hirdymor i'r gymuned; megis ysgolion, ac mae'r gwariant wedi ei ariannu'n bennaf gan fenthyciadau, grantiau cyfalaf a derbyniadau cyfalaf. Pennwyd y gyllideb gyfalaf ar gyfer 2015-16 yn £36.441 miliwn.

Ail-werthuswyd holl asedau'r awdurdod yn 2009-10, ac mae ailwerthusiad o'r holl asedau ar y gweill ar gyfer y flwyddyn ariannol sy'n dod i ben ar 31 Mawrth 2015, ond ni fydd canlyniadau hwn ar gael tan yn hwyrach yn y flwyddyn ariannol. Cynhelir gwerthusiadau yn ystod y flwyddyn hefyd i sicrhau bod unrhyw newidiadau i werth asedau o ganlyniad i golli neu gynyddu gwerth (gwariant ychwanegol sy'n ychwanegu gwerth i'r ased) yn cael eu hadlewyrchu yng ngwerthoedd asedau'r Awdurdod. Cynhelir ail-werthusiadau o eiddo buddsoddi yn ystod y flwyddyn hefyd.



## Rhaglen Gyfalaf 2015-16 i 2018-19

| Gwariant sydd wedi ei Gynllunio ar Wasanaethau | Rhagolygon Cyllideb Gros | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | 2015-16 | 2016-17 | 2017-18 | 2018-19 | Cyfanswm hyd 2019 |
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Addysg a Thrawsnewid | 11,204 | 17,751 | 8,304 | 1,563 | 38,822 |
| Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles – Gofal Cymdeithasol i Oedolion | 784 | - | - | - | 784 |
| Cymunedau –Gwasanaethau Stryd | 3,214 | 450 | 450 | 450 | 4,564 |
| Cymunedau – Adfywio a Datblygu | 16,122 | 7,085 | 3,025 | 3,025 | 29,257 |
| Cymunedau – Chwaraeon, Chwarae a Lles Egnïol | 200 | 0 | 0 | 0 | 200 |
| Adnoddau – TGCh ac Eiddo | 4,917 | 1,150 | 1,150 | 1,150 | 8,367 |
| Heb ei neilltuo | - | - | - | 535 | 535 |
| **CYFANSWM Y RHAGLEN GYFALAF** | **36,441** | **26,436** | **12,929** | **6,723** | **82,529** |

| Cyllid | Cyllid | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | 2015-16 | 2016-17 | 2017-18 | 2018-19 | Cyfanswm hyd at 2019 |
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Gyllid Cyfalaf Cyffredinol - Benthyciadau â Chymorth | 3,909 | 3,909 | 3,909 | 3,909 | 15,636 |
| Grant Cyfalaf Cyffredinol | 2,379 | 2,379 | 2,379 | 2,379 | 9,516 |
| Benthyciadau Digymorth | 2,297 | - | - | - | 2,297 |
| Derbyniadau Cyfalaf | 9,322 | 4,806 | 3,706 | - | 17,834 |
| Benthyciad Llywodraeth Cymru | 2,400 | | | | 2,400 |
| Menter Benthyca Llywodraeth Leol (Ysgolion yr 21ain Ganrif) | 2,883 | 2,713 | - | - | 2,713 |
| Cyfraniadau Refeniw | 3,055 | - | - | - | 3,055 |
| Grantiau a Chyfraniadau Allanol | 10,196 | 12,629 | 2,935 | 435 | 26,195 |
| **CYFANSWM Y RHAGLEN GYFALAF** | **36,441** | **26,436** | **12,929** | **6,723** | **82,529** |

| Penaethiaid Is-adrannau | Cyfarwyddwr Corfforaethol-Addysg a Thrawsnewid - Deborah McMillan | Y Gyfarwyddi-aeth Plant |
|---|---|---|
| | | |
| Strategaeth, Partneriaethau a Chomisiynu:- Nicola Echanis | | |

**RHAGAIR**

Mae'r Gyfarwyddiaeth Plant yn cynorthwyo plant, pobl ifanc a'u teuluoedd ym mhob rhan o'r fwrdeistref sirol.

Rydym wedi sefydlu strwythur newydd ar gyfer y Gyfarwyddi-aeth yn ddiweddar sy'n canolbwyntio ar y blaenoriaethau ry-dym wedi eu nodi na ellir cyfaddawdu arnynt. Rydym wedi ystyried y modd gorau o sicrhau bod y blaenoriaethau hyn yn cael eu diogelu o ystyried nifer o ddatblygiadau cenedlaethol, yn enwedig y trefniadau cenedlaethol ar gyfer gwella gwasanaethau ysgolion. Mae'r datblygiadau hyn yn rhoi eglurder i ni ynglŷn â chwmpas y swyddogaethau a'r gwasanaethau y bydd y Gyfarwyddiaeth Plant yn parhau i'w darparu a'r rhai hynny y bydd y consortia addysg rhanbarthol yn eu darparu. Bydd y trefniadau newydd hyn yn golygu y bydd y swyddogaethau canlynol yn trosglwyddo gydag amser o'r Gy-farwyddiaeth Plant i Gonsortiwm Addysg Canol De Cymru:

- cymorth i'r blynyddoedd cynnar;
- alinio strategaethau 14-19 cenedlaethol a lleol ar draws ardal ehangach y consortiwm er mwyn helpu i godi safonau yn Saesneg a mathemateg, sy'n bynciau craidd;
- cynllunio'r gwaith o ddatblygu a gweithredu strategaethau ar gyfer ysgolion y 21ain Ganrif;
- alinio Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg a'r Grant Cymraeg mewn Addysg;
- comisiynu, cydgysylltu a sicrhau ansawdd gwasanaethau hyfforddiant a gwasanaethau gwybodaeth i lywodraethwyr o safon uchel; a
- chyngor adnoddau dynol arbenigol i gefnogi penaethiaid a chyrff llywodraethu sy'n ymdrin â materion rheoli perfformiad a medrusrwydd.

## RHAGAIR: Plant (Parhad)

Tra bydd y newid hwn yn digwydd, rydym yn parhau i sicrhau bod ein gweledigaeth yn eglur a'i bod yn cael ei gweithredu h.y., helpu plant a phobl ifanc i:

- ffynnu a gwneud y defnydd gorau o'u talentau;
- byw bywydau iach a diogel;
- bod yn unigolion hyderus a gofalgar; a
- gwybod beth yw eu hawliau ac arfer yr hawliau hynny

Bydd strwythur newydd y Gyfarwyddiaeth Plant yn sicrhau y byddwn yn cynnig mwy o gyfleoedd i weithio'n agosach gyda phartneriaid yn y sectorau cyhoeddus, y sector gwirfoddol a'r sector preifat, a hynny modd cwbl integredig. Fodd bynnag, mae'n amlwg y bydd toriadau ariannol y sector gyhoeddus ehangach yn effeithio ar wasanaethau i blant, pobl ifanc a'u teuluoedd. Felly, rydym yn wynebu penderfyniadau anodd am beth y gallwn ei gynnal, beth y gallwn ei ostwng neu beth y gallwn roi'r gorau i'w ddarparu, yn unol â'r gostyngiadau i'r gyllideb.

Pan fo hynny'n bosibl, rydym yn ymroddedig i ddiogelu gwasanaethau rheng flaen i blant, yn enwedig y rhai hynny sy'n cefnogi ymyrriadau cynnar ac yn diogelu plant, gan eu hamddiffyn rhag niwed. Yr hyn sy'n bwysig yw ansawdd y canlyniadau i'n teuluoedd. Gwerth am arian yw ein maen prawf allweddol, nid pwy sy'n darparu'r gwasanaeth. Felly, y pwyslais o'r newydd yn ein cynllun busnes yw gweddnewid y gwasanaethau i blant, gyda phwyslais cryf ar ymyrryd ac atal yn gynnar a datblygu dull system gyfan o weithio i sicrhau y bydd anghenion plant a phobl ifanc yn cael eu diwallu ar y cyfle cynharaf.

STRWYTHUR

**Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg a Thrawsnewid**
– Deborah McMillan

*Strategaeth, Partneriaethau a Chomisiynu

- Cynhwysiant
- Sylfaen
- Gwasanaeth Ieuenctid
- Pontio
- Dysgu Ôl-14
- Gwasanaeth Cyngor a Seicoleg Statudol
- Ymddygiad ac Iechyd Emosiynol
- Gwella Ysgolion
- Adnoddau a Chynllunio Strategol
- Chymorth Busnes a Strategaeth
- Cymorth i Blant a Dysgwyr
- Cymuned a Phartneriaethau
- Rheoli Strategol
- Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid

Trawsnewid

- Canolfan Ragoriaeth

* Mae Strategaeth, Partneriaethau a Chomisiynu yn cynnwys swyddogaethau gwasanaethau sy'n ymwneud â 'Dysgu'

| CYLLIDEB REFENIW | 2014-15 (Amcangyfrif Diwygiedig) | | | 2015-16 | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Plant** | **Gwariant** | **Incwm** | **Net** | **Gwariant** | **Incwm** | **Net** |
| | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| **Dysgu** | | | | | | |
| Cyllideb Cynhwysiant | | | | | | |
| Anghenion Arbennig Awdurdod Addysg Lleol | 643 | - | 643 | 643 | - | 643 |
| Anghenion Arbennig Ysgolion | 2,673 | (144) | 2,529 | 2,696 | (144) | 2,552 |
| Adenillion Rhwng Awdurdodau | 1,513 | (1,011) | 502 | 1,538 | (1,012) | 526 |
| Cyfanswm y Gyllideb Cynhwysiant | 4,829 | (1,155) | 3,674 | 4,877 | (1,156) | 3,721 |
| Sylfaen | | | | | | |
| Blynyddoedd Cynnar | 1,168 | (518) | 650 | 900 | (314) | 586 |
| Cronfa Ysgolion Gwell, Grant Effeithiolrwydd Ysgolion a Grant Cymraeg mewn Addysg Llywodraeth Cymru | 2,007 | (1,525) | 482 | 482 | - | 482 |
| Cyfanswm y Gyllideb Sylfaen | 3,175 | (2,043) | 1,132 | 1,382 | (314) | 1,068 |
| Gwasanaeth Ieuenctid | | | | | | |
| Gwasanaeth Ieuenctid | 941 | (210) | 730 | 623 | (211) | 412 |
| Cyfanswm y Gyllideb Ieuenctid | 941 | (210) | 730 | 623 | (211) | 412 |
| Pontio | | | | | | |
| Grantiau | 102 | (77) | 25 | 43 | - | 43 |
| Prosiect 'On-Track' | 107 | - | 107 | - | - | - |
| Cyfanswm Pontio | 209 | (77) | 132 | 43 | - | 43 |
| Ôl-14 | | | | | | |
| Dysgu 14-19 | 820 | (820) | - | 819 | (819) | - |
| Cyfanswm Ôl-14 | 820 | (820) | | 819 | (819) | - |

| CYLLIDEB REFENIW | 2014-15 (Amcangyfrif Diwygiedig) | | | 2015-16 | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Plant** | **Gwariant** | **Incwm** | **Net** | **Gwariant** | **Incwm** | **Net** |
| | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| **Dysgu (parhad)** | | | | | | |
| Seicoleg a Chyngor Statudol | | | | | | |
| Gwasanaeth Seicoleg Addysg | 427 | (21) | 406 | 396 | (21) | 375 |
| Plant sy'n Derbyn Gofal | 102 | - | 102 | 111 | - | 111 |
| Cyfanswm y Gyllideb Seicoleg a Chyngor | 529 | (21) | 508 | 507 | (21) | 486 |
| Ymddygiad ac Iechyd Emosiynol | | | | | | |
| Unedau Cyfeirio Disgyblion/Gwasanaeth Cymorth Ymddygiad | 1,203 | (56) | 1,147 | 1,265 | (55) | 1,210 |
| Cymdeithas 'Education Otherwise' | 412 | (88) | 324 | 449 | (88) | 361 |
| Cyfanswm y Gyllideb Ymddygiad ac Iechyd | 1,615 | (144) | 1,471 | 1,714 | (143) | 1,571 |
| | | | | | | |
| Gwella Ysgolion | 803 | - | 803 | 789 | - | 789 |
| | | | | | | |
| Gwasanaeth Cerddoriaeth Ysgolion | 661 | (625) | 36 | 640 | (640) | - |
| | | | | | | |
| **Cyfanswm Dysgu** | **13,582** | **(5,095)** | **8,487** | **11,394** | **(3,304)** | **8,090** |
| | | | | | | |
| **Strategaeth, Partneriaethau a Chomisiynu** | | | | | | |
| Cyllideb Ysgolion Unigol | 102,586 | (17,838) | 84,748 | 102,924 | (17,838) | 85,086 |
| | | | | | | |
| Adnoddau a Chynllunio Strategol | | | | | | |
| Rhaglen Gyfalaf/Rheoli Asedau | 708 | - | 708 | 815 | - | 815 |

| CYLLIDEB REFENIW | 2014-15 (Amcangyfrif Diwygiedig) | | | 2015-16 | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Plant** | **Gwariant** | **Incwm** | **Net** | **Gwariant** | **Incwm** | **Net** |
| | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| **Strategaeth, Partneriaethau ac Adnoddau (parhad)** | | | | | | |
| Cynllunio Lleoedd Ysgol | 2,514 | (12) | 2,502 | 2,536 | (12) | 2,524 |
| Cyfraniadau Refeniw at Gyfalaf | 630 | - | 630 | 630 | - | 630 |
| Ysgolion Bro | 43 | (39) | 4 | 207 | (207) | - |
| Cyfanswm Strategaeth, Partneriaethau ac Adnoddau | 3,895 | (51) | 3,844 | 4,188 | (219) | 3,969 |
| | | | | | | |
| Strategaeth a Chymorth Busnes | | | | | | |
| Gwasanaethau Cymorth Rheoli | 629 | - | 629 | 489 | - | 489 |
| Cyfanswm Strategaeth a Chymorth Busnes | 629 | - | 629 | 489 | - | 489 |
| | | | | | | |
| Cymorth i Blant a Dysgwyr | | | | | | |
| Derbyniadau i Ysgolion | 1 | - | 1 | - | - | - |
| Cludiant Rhwng y Cartref a'r Ysgol/Coleg | 4,989 | (20) | 4,969 | 4,330 | (20) | 4,310 |
| Cymorth i Ddisgyblion | 351 | (117) | 234 | 237 | (112) | 125 |
| Cymorth i Fyfyrwyr | 48 | - | 48 | - | - | - |
| Grantiau Dysgu'r Cynulliad | 1 | (1) | - | - | - | - |
| Gwasanaeth Lles Addysg | 258 | - | 258 | 268 | - | 268 |
| Gwasanaethau Arlwyo | 5,147 | (4,266) | 880 | 5,130 | (4,467) | 663 |
| Cyfanswm Cymorth i Blant a Dysgwyr | 10,795 | (4,404) | 6,391 | 9,965 | (4,599) | 5,366 |
| | | | | | | |
| Gweithio Integredig | 1,707 | (1,147) | 561 | 1,508 | (868) | 640 |
| Partneriaethau Plant a Phobl Ifanc | 4,873 | (4,827) | 46 | 4,467 | (4,458) | 9 |
| Cyfanswm Comisiynu a Phartneriaethau | 6,580 | (5,974) | 606 | 5,975 | (5,326) | 649 |

| CYLLIDEB REFENIW | 2014-15 (Amcangyfrif Diwygiedig) | | | 2015-16 | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Plant | Gwariant | Incwm | Net | Gwariant | Incwm | Net |
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Rheoli Strategol | | | | | | |
| Costau Staff | 553 | (518) | 35 | 593 | (522) | 71 |
| Dyletswyddau Statudol / Rheoleiddio | 1 | - | 1 | 1 | - | 1 |
| Costau Diswyddo / Ymddeol | 982 | - | 982 | 983 | - | 983 |
| Yswiriant | 1 | (5) | (4) | - | - | - |
| Costau Gwasanaethau Cymorth Eraill | 275 | (6) | 269 | 245 | (66) | 179 |
| Rheoli Strategol | 284 | - | 284 | 267 | - | 267 |
| Cyfanswm Rheoli Strategol | 2,096 | (529) | 1,567 | 2,089 | (588) | 1,501 |
| | | | | | | |
| Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid | | | | | | |
| Cyfiawnder Ieuenctid | 1,001 | (605) | 395 | 1,102 | (683) | 419 |
| **Cyfanswm Strategaeth, Partneriaethau a Chomisiynu** | **127,582** | **(29,401)** | **98,181** | **126,732** | **(29,253)** | **97,479** |
| | | | | | | |
| **Diogelu a Chymorth i Deuluoedd *** | | | | | | |
| Plant sy'n Derbyn Gofal | 12,577 | (1,423) | 11,154 | | | |
| Gwasanaethau Cymorth i Deuluoedd | 1,029 | (20) | 1,009 | | | |
| Gwasanaethau Eraill i Blant a Theuluoedd | 780 | (13) | 767 | | | |
| Comisiynu a Gwaith Cymdeithasol | 4,265 | - | 4,265 | | | |
| Gweinyddu | 1,186 | - | 1,186 | | | |
| **Cyfanswm Diogelu a Chymorth i Deuluoedd** | **19,837** | **(1,456)** | **18,381** | | | |
| | | | | | | |
| Darpariaeth Wrth Gefn | 60 | - | 60 | 61 | - | 61 |
| **Trawsnewid – Canolfan Ragoriaeth**** | | | | 145 | - | 145 |
| **CYFANSWM Y GYFARWYDDIAETH PLANT** | **161,061** | **(35,952)** | **125,109** | **138,332** | **(32,557)** | **105,775** |

* Cymeradwyodd y Cyngor, yn ei gyfarfod ar 14 Rhagfyr 2014, i alinio cyfrifoldebau'r Cyfarwyddwr Lles a'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol. O ganlyniad, cytunodd y rheolwyr y byddai'r cyfrifoldeb am Ddiogelu a Chymorth i Deuluoedd yn symud o'r Gyfarwyddiaeth Plant i'r Gyfarwyddiaeth Lles o fis Ebrill 2015. Mae cyllidebau'r flwyddyn bresennol ar gyfer Diogelu a Chymorth i Deuluoedd felly ar dudalen 29 o'r Llyfr Cyllidebau. **Mae'r Cyfarwyddwr bellach yn gyfrifol am Drawsnewid (Adnoddau yn flaenorol).



## CYLLIDEB GYFALAF FANWL 2015-16 i 2018-19

| Y Gyfarwyddiaeth Addysg a Thrawsnewid | CYLLIDEB: | | | | | WEDI'I ARIANNU GAN: | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Cyllideb Gros 2015-16 | Cyllideb Gros 2016-17 | Cyllideb Gros 2017-18 | Cyllideb Gros 2018-19 | Cyfanswm 4 mlynedd | Cyllid Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr | Ysgolion yr 21ain Ganrif Llywodraeth Cymru / Menter Benthyca Llywodraeth Leol | Cyllid S106 | Cyfanswm Cyllid |
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Ysgol Gynradd Pen-y-fai | 105 | - | - | - | **105** | 105 | | | **105** |
| Estyniad Ysgol Mynydd Cynffig | - | 277 | 3,188 | 1,029 | **4,494** | 3,094 | 1,400 | | **4,494** |
| Ysgol Gynradd Coety/Parc Derwen | 5,157 | 204 | - | - | **5,361** | | 2,050 | 3,311 | **5,361** |
| Anghenion Dysgu Ychwanegol | 15 | - | - | - | **15** | - | - | - | **15** |
| Darpariaeth Gynradd De Cwm Garw | 3,119 | 5,467 | 1,143 | 11 | **9,740** | 3,917 | 5,823 | - | **9,740** |
| Ysgol Gynradd Pencoed | 1,040 | 5,767 | 1,432 | 11 | **8,250** | 3,700 | 4,550 | - | **8,250** |
| Darpariaeth Gynradd Porth y Cymoedd | 1,061 | 6,036 | 1,541 | 12 | **8,650** | 4,230 | 4,420 | - | **8,650** |
| Cyllid Cadw ar gyfer Moderneiddio Ysgolion | 707 | - | - | - | **707** | 707 | - | - | **707** |
| Ysgol Arbennig Heronsbridge | - | | 1,000 | 500 | **1,500** | 1,200 | 300 | - | **1,500** |
| **CYFANSWM Y RHAGLEN GYFALAF** | **11,204** | **17,751** | **8,304** | **1,563** | **38,822** | **16,953** | **18,543** | **3,311** | **38,822** |

| Penaethiaid Is-adrannau: | Cyfarwyddwr Corfforaethol - Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles - Sue Cooper | Cyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles |
|---|---|---|
| Pennaeth Gofal Cymdeithasol i Oedolion: Jackie Davies | | |
| Pennaeth Diogelu a Chymorth i Deuluoedd: Colin Turner | | |
| Chwaraeon, Chwarae a Lles Egnïol: Rheolwr Grŵp, Andrew Thomas | | |

**RHAGAIR**

Ein gweledigaeth yw mynd ati i hybu annibynniaeth, lles a dewis a fydd yn cynorthwyo unigolion i gyflawni eu potensial llawn. Mae hyn yn ganolog i'r blaenoriaethau corfforaethol, sef:

- Gweithio gyda'n gilydd i helpu pobl sy'n agored i niwed i barhau i fod yn annibynnol
- Gweithio gyda phlant a theuluoedd i fynd i'r afael â phroblemau'n gynnar
- Gweithio gyda'n gilydd i wneud y defnydd gorau o'n hadnoddau

Y Gyfarwyddiaeth sy'n gyfrifol am gynllunio, comisiynu, asesu a, phan fo'n briodol, darparu gofal cymdeithasol, chwaraeon, chwarae a gweithgareddau lles yn uniongyrchol, yn ogystal â diogelu a chymorth i deuluoedd.  Rydym bellach wedi integreiddio chwaraeon a chwarae yn y gyfarwyddiaeth i sicrhau bod plant ac oedolion yn cael pob cyfle i wella eu lles ac aros yn actif beth bynnag fo'u sgiliau a'u galluoedd. Bydd gennym nod benodol o hybu y gwasanaethau hyn mewn modelau ymyrryd ac atal cynnar o ddarparu gwasanaethau.

Ein gweledigaeth ar gyfer y dyfodol yw darparu amrywiaeth o wasanaethau sy'n hybu annibynniaeth a lles, sydd wedi eu cynllunio ar sail anghenion unigolion a chymunedau ac sy'n lleol, yn hygyrch ac yn hyblyg. Byddwn yn gweithio gydag ystod o bartneriaid gan gynnwys Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg, sefydliadau'r trydydd sector a'r sector gwirfoddol yn ogystal â darparwyr eraill gan gynnwys y sector annibynnol i wneud yn sicr bod y gwasanaethau hyn yn bodloni gofynion ein cwsmeriaid a defnyddwyr ein gwasanaethau.

Mae'r gyfarwyddiaeth yn parhau i ddatblygu dull integredig o ddarparu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol ym Mhen-y-bont ar Ogwr. Rydym wedi sefydlu nifer o dimau integredig erbyn hyn sy'n parhau i sbarduno'r agenda integreiddio.

Rydym am gymorth a gwasanaethau sy'n:

- sicrhau bod oedolion a phlant y mae angen cymorth arnynt  yn cael eu hamddiffyn a'u diogelu;
- ymateb i anghenion defnyddwyr gwasanaeth ac yn cynorthwyo pobl yn gynt er mwyn atal problemau rhag gwaethygu;
- cael eu cynhyrchu ar y cyd â'r bobl sy'n eu defnyddio, er mwyn i ni gael rhannu syniadau a phenderfyniadau;

## RHAGAIR: Y Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Parhad)

- cynnig mwy o reolaeth a dewis i drigolion;
- ymateb yn gyflymach i anghenion pobl, gyda gwybodaeth dda o'r dechrau;
- golygu llai o ofal i ffwrdd o'r cartref – mewn ysbytai neu gartrefi gofal;
- wedi'u rhannu rhwng y GIG a Chyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, yn gweithio'n ddidor i fodloni anghenion; a
- rhoi pob cyfle i blant ac oedolion gymryd rhan mewn gweithgareddau, beth bynnag yw eu sgiliau a'u galluoedd, gan hefyd hybu dull o fyw iach trwy chwaraeon llwyddiannus.

Yr amcanion gwella allweddol ar gyfer 2015-16 yw:

- Gweithio gyda defnyddwyr gwasanaethau, gofalwyr a phartneriaid, gan gynnwys y trydydd sector, i ddatblygu gwasanaethau mewn modd sy'n cefnogi pobl i fod yn annibynnol am fwy o amser a defnyddio gwasanaethau statudol dim ond pan fo angen gwirioneddol.
- Gweithio gyda'n holl bartneriaid presennol a darpar-bartneriaid i ddatblygu amrywiaeth o opsiynau llety a chymorth ar gyfer pobl sy'n agored i niwed a phobl hŷn y mae angen cymorth arnynt er mwyn iddynt fod, a pharhau i fod, yn annibynnol.
- Ymwreiddio negeseuon bwyta'n iach mewn lleoliadau blynyddoedd cynnar fel ysgolion, sefydliadau ieuenctid, gwasanaethau hamdden a grwpiau cymuned.
- Gweithio gyda phartneriaid i ymdrin â materion blaenoriaeth fel lles meddyliol, gordewdra plentyndod, alcohol, ysmygu a chamddefnyddio sylweddau, yn enwedig ymhlith pobl ifanc.
- Gweithio gydag amrywiaeth o bartneriaid i ddatblygu gwasanaethau a chyfleoedd sy'n annog ac yn hybu gweithgareddau corfforol gydol oes, gan gynnwys gwneud y defnydd gorau o'n Hawliau Tramwy, llwybrau beicio, llwybrau cymunedol a'n mannau gwyrdd.
- Sefydlu systemau i gefnogi ein trefniadau Canolfan Cymorth Amlasiantaeth newydd.
- Gwella'r ffordd yr ydym yn gweithio gydag asiantaethau eraill i helpu i nodi mwy o deuluoedd y mae angen cymorth arnynt, ac i fynd i'r afael â gwraidd eu problemau.
- Gweithredu'r Strategaeth Cymorth Cynnar i leihau nifer y plant sy'n derbyn gofal ac atal plant rhag dod yn rai sy'n derbyn gofal.
- Gweithredu'r Strategaeth Parhad a Lleoli i leihau nifer y plant sy'n derbyn gofal ac atal plant rhag dod yn rai sy'n derbyn gofal.
- Archwilio dulliau newydd o ymgysylltu ac ymgynghori â phlant a phobl ifanc er mwyn parhau i glywed llais y plentyn.

Rhaid bwrw ymlaen â'r gwaith o wireddu ein gweledigaeth a'n hamcanion gwella penodol ochr yn ochr â'r gwaith i sicrhau arbedion effeithlonrwydd sylweddol yn y cyfnod rhwng 2014-15 a 2018-19 ac i fodloni'r galw ychwanegol ar y gwasanaethau oherwydd newidiadau yn y boblogaeth (e.e. mae'r cynnydd yn nifer y bobl hŷn a'r rhai ag anableddau yn fater allweddol i'r Cyngor). Mae hon yn agenda heriol iawn a bydd angen gwneud newidiadau mawr er mwyn sicrhau bod gwasanaethau'n addas ar gyfer y dyfodol ac yn gynaliadwy.

STRWYTHUR

**Cyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles**
**Sue Cooper**

## Gofal Cymdeithasol i Oedolion

- Asesu angen a rheoli gofal
